

## Cyfrif Ar-lein

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Datganiad Digidol Lleol, rydym wedi ailddylunio ein porth ar-lein, 'Fy Nghyfrif', i alluogi mynediad digidol haws at ein gwasanaethau. Dylai hyn wella eich profiad fel defnyddiwr, gwella hygyrchedd a defnyddioldeb, a chefnogi defnydd ar ddyfeisiau symudol.

Fel y rheolydd data, bydd Cyngor Sir Penfro yn gwneud y canlynol:

- ond yn cadw data sydd ei angen arnom i ddarparu gwasanaethau
- cadw eich cofnodion yn ddiogel ac yn gywir
- ond yn cadw eich data am gyhyd ag y bydd angen
- casglu, cadw a defnyddio eich data mewn ffordd nad yw'n torri unrhyw ddeddfau diogelu data

Y pethau y gallwch eu gwneud i'n helpu ni:

- dweud wrthym pan fo unrhyw un o'ch manylion yn newid
- dweud wrthym os yw unrhyw beth o'r wybodaeth sydd gennym yn anghywir

Mae'n rhaid inni gasglu a chadw ychydig o ddata ychwanegol wrth ichi greu cyfrif trwy sir-benfro.gov.uk

Mae hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth bersonol sylfaenol sydd ei hangen i sefydlu a dilysu'ch cyfrif, gan gynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol a chyfrinair
- eich cyfeiriad Protocol Rhyngryd (IP) a'r dyddiadau ac amseroedd y defnyddir eich cyfrif
- rhif dilysu (AuthID) eich cyfrif cyfryngau cymdeithasol os ydych chi'n cofrestru/mewngofnodi gan ei ddefnyddio
- unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhoi inni trwy ffurflen ar-lein

Rydym yn defnyddio meddalwedd Google Analytics i gasglu data am sut yr ydych yn defnyddio'ch cyfrif ar-lein. Mae ein [polisi cwcis](#) yn rhoi mwy o wybodaeth am hyn.

### **Pam mae angen eich gwybodaeth arnom**

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth i wneud y canlynol:-

- Sefydlu eich cyfrif sir-benfro.gov.uk a'i gadw yn ddiogel (gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost a chyfrinair)
- anfon codau diogelwch atoch (gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn)
- dweud wrthoch chi am unrhyw newidiadau, ymyriadau wedi'u cynllunio neu broblemau eraill a allai effeithio ar eich cyfrif (gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn symudol)
- cadw gwybodaeth er mwyn ichi allu ei chyrru y tro nesaf yr ydych yn mewngofnodi i'ch cyfrif sir-benfro.gov.uk – er enghraifft, cyfeirnodau talu
- cysylltu'ch cyfrif a'r wybodaeth a gedwir ynddo â systemau eraill a reolir gan Gyngor Sir Penfro

### **Hysbysiadau preifatrwydd adrannol**

Trwy greu cyfrif, byddwch yn gallu cyrchu nifer o wasanaethau Cyngor Sir Penfro gan ddefnyddio'r un manylion mewngofnodi. Gweler yr [hysbysiadau preifatrwydd adrannol](#) perthnasol ar gyfer y gwasanaethau hyn.